



# STRATEGIC MARKETING

CRYNODEB GWEITHREDOL

CCAUC  
Ymgynghoriad Rhanddeiliaid a  
Phartneriaid

Mai 2012

Strategic Marketing  
5-7 Ffordd yr Amgueddfa  
Caerdydd, Cymru  
CF10 3BD

Ffôn: ++44 (0)29 2030 3100

[enquiries@strategic-marketing.co.uk](mailto:enquiries@strategic-marketing.co.uk)

[www.strategic-marketing.co.uk](http://www.strategic-marketing.co.uk)

## 1. Crynodeb Gweithredol

### Cefndir a Dull

- 1.1 Yn dilyn arolwg 2007/8 o Randdeiliaid, comisiynodd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) Strategic Marketing i gynnal ail arolwg annibynnol ymhlith ei randdeiliaid a phartneriaid allanol am y gwasanaethau a ddarperir a'r cydberthnasoedd â'r sefydliadau hynny.
- 1.2 Yn y lle cyntaf, cynhaliwyd arolwg ar-lein yn ystod mis Tachwedd/Rhagfyr 2011 i gasglu barnau cyffredinol unigolion o fewn sefydliadau addysg yng Nghymru a Phartneriaid ar draws y Deyrnas Unedig. Roedd yr arolwg yn bennaf o natur feintiol. Casglwyd cyfanswm o 111 o ymatebion gan sefydliadau (62%) a 42 ymateb gan bartneriaid (52%).
- 1.3 Gwnaed ail gyfnod o waith ym mis Ionawr/Chwefror 2012 i archwilio rhai o'r prif faterion a godwyd yn y cyfnod gyntaf yn fanylach. Cynhaliwyd 50 cyfweiliad dwys dros y ffôn - 35 gyda chynrychiolwyr o sefydliadau yng Nghymru a 15 gyda phartneriaid ar draws y DU.

### Adborth oddi wrth Sefydliadau

#### Ymwybyddiaeth a Chanfyddiadau am CCAUC

- 1.4 Mae'r ymwybyddiaeth o CCAUC yn gryf iawn. Mae 87% naill ai'n gwybod 'yn weddol dda' neu'n 'dda iawn' am waith CCAUC. Mae hyn yn aros heb ei newid o arolwg 2008. Fel arfer mae ymwybyddiaeth o waith cyrff eraill yn is nag yw yn achos CCAUC, y rhai uchaf ohonynt oedd yr Awdurdod Safonau Addysg Uwch (74%), yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd (73%), Universities UK (71%), UCAS (71%), Addysg Uwch Cymru (67%) ac Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru (63%).
- 1.5 Mae gan 74% argraff gyffredinol ffafriol o CCAUC. Nid oes unrhyw newid sylweddol ers 2008. Mae gan 6% farn anffafriol o CCAUC. Mae CCAUC yn cael ei ystyried yn fwy ffafriol na chyrff addysg eraill.
- 1.6 Mae 56% o ymatebwyr yn dweud bod CCAUC naill ai'n 'uwch na'r cyfartaledd' neu'n 'un o'r cyrff addysg gorau' o ran y gwasanaeth y mae'n ei ddarparu i sefydliadau. Mae 32% yn ei ystyried ei fod tua'r cyffredin tra bo 7% yn awgrymu ei fod yn is na'r cyfartaledd neu'n un o'r sefydliadau gwaethaf o ran gwasanaeth.
- 1.7 Mae'r farn am CCAUC yn gadarnhaol iawn o ran y priodoleddau y mae'n eu dangos yn enwedig pa mor hawdd yw mynd ato (88%), effeithiolrwydd (64%), parch (62%), i ba raddau y mae'n ymwybodol o waith y sefydliadau y mae'n eu cyllido (62%) ac ymatebolrwydd (60%). Fodd bynnag, mae 68% o'r farn bod CCAUC yn firocrataidd a soniodd 33% am ddiffyg tryloywder.

## Canfyddiadau am swyddogaeth CCAUC

- 1.8 Mae'r barnau'n weddol gyson am swyddogaeth CCAUC ymysg sefydliadau ond mae rhai meysydd lle y ceir gwahaniaeth barn. Mae 82% yn ystyried CCAUC fel un o asiantau Llywodraeth Cymru tra bo 61% yn ei ystyried yn fwyfwy fel asiantaeth gynllunio. Fodd bynnag, mae 47% yn ei ystyried yn eiriolwr neu lefarydd dros y sector AU ac nid yw 29% yn ei ystyried felly. Mae hyn yn adlewyrchu dryswch am swyddogaeth ganfyddedig CCAUC a'r hyn a fydd yn y dyfodol. Mae llawer yn cydnabod bod gwahanol fesurau polisi Llywodraeth Cymru ar feysydd fel cyllido ac ail-gyflunio a chydweithredu wedi newid swyddogaeth CCAUC ond mae hyn wedi arwain at ansicrwydd ynglŷn â chylch gwaith CCAUC yn y dyfodol.
- 1.9 Mae 63% yn cytuno bod CCAUC yn gweithio mewn partneriaeth â'r sefydliadau y mae'n eu hariannu, ei fod yn hyrwyddo'r gwaith o gyflawni gofynion cyfreithiol cydraddoldeb (60%), yn ymateb yn effeithiol i newidiadau polisi (60%), yn cefnogi ac yn annog datblygiad cynaliadwy (58%) ac yn gweithio mewn partneriaeth â chyrrff eraill yn y sector addysg uwch (58%).

## Lefel yr Ymgysylltiad a'r Cymorth gan CCAUC

### Ymysylltiad cyffredinol

- 1.10 Mae 63% yn cytuno bod cyfleoedd i roi adborth i CCAUC ar ei waith tra bo 16% yn anghytuno. Y farn gyffredinol yw bod CCAUC yn ymatebol i randdeiliaid gan fod 66% yn credu ei fod yn gweithredu neu y bydd yn gweithredu ar yr adborth y mae'n ei dderbyn. Fodd bynnag, roedd lleiafrif sylweddol o un ymhob chwech (16%) yn anghytuno.
- 1.11 Yn gyffredinol mae ymgysylltiad a chefnogaeth yn y rhan fwyaf o feysydd gwaith CCAUC yn dda gyda hanner neu fwy yn rhoi gradd gadarnhaol. Casglu data ac ystadegau yw'r maes â'r radd orau gyda 70% yn rhoi da iawn neu'n weddol dda fel ymateb. I lawer o'r meysydd â graddau is, ceir cyfrannau uchel o ymatebion 'ddim yn gwybod' a allai gynnwys ymatebwyr nad ydynt yn ymwneud â'r maes hwnnw.

### Adborth ar Lefel Sefydliadol

- 1.12 Ar y cyfan mae CCAUC yn effeithiol yn y rhan fwyaf o feysydd ei waith gyda sefydliadau unigol ac mae o leiaf hanner yn dweud ei fod yn weddol effeithiol neu'n effeithiol iawn ym mhob maes. Mae 79% yn dweud bod CCAUC yn effeithiol o ran 'ymateb i geisiadau ac ymholiadau gan sefydliadau' a 77% am gasglu data. Graddau 'ddim yn effeithiol iawn/o gwbl' yw'r lleiafswm ond maent yn ymwneud ag ymgysylltiad ynghylch materion risg sefydliadol (11%), y broses flynyddol o ddyrannu cyllid (11%), ymateb i geisiadau/problemau unigol ac ymholiadau (10%) a monitro ariannol (7%).
- 1.13 Mae adborth ar welliannau ar wahanol feysydd gwasanaeth yn awgrymu bod CCAUC wedi dod yn fwy hygyrch i staff mewn sefydliadau. Mae'r newidiadau mwyaf cadarnhaol ym maes cyfathrebu electronig lle mae 31% yn gweld gwelliannau, hygyrchedd staff (23%), cyswllt wyneb yn wyneb (20%) ac ymdrin ag ymholiadau a cheisiadau (19%). Mae 15% yn gweld gwelliannau yn

ansawdd gwasanaethau a chyfranogiad sefydliadau o ddatblygu polisi (11%) er bod 7% hefyd yn gweld dirywiad ar y pwynt olaf hwn.

- 1.14 Yn nodweddiadol mae'r dirywiad mewn gwasanaethau mewn meysydd sy'n adlewyrchu'r 'llwyth gwaith' y mae'n ofynnol i sefydliadau ei wneud. Mae 37% yn dweud bod y baich gweinyddol ar sefydliadau wedi gwaethygu tra bo 21% wedi sylwi ar ddirywiad yn amseroldeb ceisiadau swyddogol.
- 1.15 Mae meysydd eraill sydd wedi dirywio'n ymwneud â gallu CCAUC i ddeall anghenion y sector a'i gynrychioli. Yn y ddau achos roedd tua chwech o bob deg yn gweld dim newid, bron un o bob deg yn gweld gwelliant (8-9%) ond roedd bron ddwywaith yn fwy yn dweud y bu dirywiad (15-16%). Mae dadansoddiad pellach yn awgrymu bod y canfyddiadau hyn yn ymwneud ag amseroldeb ceisiadau swyddogol a'r llinellau terfyn ar gyfer ymateb - yn enwedig yn haf 2011, a'r baich gweinyddol sy'n cael ei ysgogi gan agenda polisi Llywodraeth Cymru. Yn y ddau achos, mae cyflymder y newid yn y sector yn cael dylanwad mawr ar y rhain. Fodd bynnag, mae micro-reoli a lefelau monitro'n cael eu codi fel problemau parhaus.
- 1.16 Mae 43% yn gweld gwelliant yn y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu i'w sefydliad, mae 12% yn gweld dirywiad ac mae 35% heb weld newid. Cydnabuwyd gwelliannau yn lefel y gwasanaeth a ddarperir a'r perthnasoedd gyda sefydliadau. Mae llawer yn dweud, er bod cynnydd wedi digwydd, y dylai CCAUC barhau i weithio ar y meysydd sydd wedi gwella fel pa mor hawdd yw mynd ato, hygyrchedd staff, a chyfathrebu electronig effeithiol, cyswllt wyneb yn wyneb ac ymdrin ag ymholiadau a cheisiadau. Ymhlith y meysydd i'w gwella ymhellach y mae:
  - Perthnasoedd sy'n canolbwyntio mwy ar gleientiaid a thrafodaeth gyda sefydliadau ar lefel uchel
  - Parhau â chyswllt wyneb yn wyneb ac ymgynghoriadau drwy grwpiau ffocws cyson a digwyddiadau rhanbarthol i randdeiliaid
  - Ymdrin ag ymholiadau a cheisiadau - ystyrir bod rhai meysydd yn araf e.e. fframwaith newydd ar gyfer niferoedd wedi'u capio
  - Cyfathrebu'n fwy am feysydd gwaith CCAUC heblaw am gyllido

#### Adborth ar Lefel y Sector Addysg Uwch

- 1.17 Mae o leiaf ddwy ran o bump o ymatebwyr yn ystyried bod CCAUC yn effeithiol ym mhob agwedd ar ei weithgareddau lefel sector AU yn enwedig ar ddatblygu polisi ac ymgynghori ac yr oedd bron ddwy ran o dair (63%) yn dweud bod CCAUC yn effeithiol iawn neu'n weddol effeithiol am wneud hynny.
- 1.18 Mae CCAUC yn llai effeithiol o ran cefnogi yn ymwneud â'r dimensiwn rhanbarthol o gynllunio a chyflenwi addysg uwch (37% ddim yn effeithiol iawn/o gwbl), cynrychioli materion o bryder i addysg uwch i Lywodraeth Cymru (32%), cefnogi ail-gyflunio a chydweithio (30%), cefnogaeth i'r drefn newydd o gyllido ffioedd (25%). Mae'r materion hyn yn adlewyrchu pryderon ynghylch gallu CCAUC i weithredu fel cyfryngwr cryf rhwng y sector AU a Llywodraeth Cymru.
- 1.19 Ystyrir bod CCAUC yn dra effeithiol ar lefel sector addysg uwch wrth ddarparu cefnogaeth i ehangu mynediad (73%) a darpariaeth cyfrwng Cymraeg (71%). Y

meysydd lleiaf effeithiol yw cefnogaeth ar gyfer datblygiadau yn sgiliau a chyflogadwyedd myfyrwyr, cysylltiadau â busnesau a'r gymuned, a gwella ymchwil.

- 1.20 Mae 35% yn gweld gwelliannau dros y ddwy flynedd ddiwethaf i'r gwasanaeth y mae CCAUC yn ei ddarparu i'r sector addysg uwch yn gyffredinol ac mae un o bob tri yn gweld dim newid ac mae 14% yn meddwl ei fod ychydig yn waeth.

### **Cysylltu ac Ymdrin â CCAUC**

- 1.21 Gan adlewyrchu meysydd cyfredol datblygu polisi, hoffai ymatebwyr gael mwy o gysylltiad â'r staff sy'n ymwneud ag ail-gyflunio a chydweithio (23%), materion myfyrwyr (22%), cyllido (22%), datblygiad strategol (21%) a chasglu ystadegau a data (20%).
- 1.22 Mae lefelau bodlonrwydd yn gymharol uchel gyda 66% o ymatebwyr yn dweud eu bod naill ai'n fodlon iawn neu'n weddol fodlon ar y berthynas gyffredinol rhwng CCAUC a'u sefydliadau. Mae hyn wedi codi o 60% yn arolwg 2008. Mae 9%, fodd bynnag, yn anfodlon i ryw raddau. Mae hyn ychydig yn is na 12% yn yr arolwg blaenorol.
- 1.23 Mae 37% yn dweud bod perthynas CCAUC â'u sefydliad wedi gwella dros y ddwy flynedd ddiwethaf; yn bennaf mae 'ychydig' yn well. Ceir tystiolaeth o gynydd gan fod hyn wedi codi o 22% yn yr arolwg blaenorol. Fodd bynnag, mae lleiafrif sylweddol (13%) yn meddwl i'r gwrthwyneb ac yn credu bod y berthynas wedi gwaethygu.

### **Cyfathrebu ac Ymgysylltiad**

- 1.24 Y sianeli cyfathrebu a ddefnyddir fwyaf yw cyswllt uniongyrchol â staff CCAUC (83%), cylchlythyrau CCAUC (82%), a'r wefan (71%). Defnyddir y newyddlen gan 18% fel y prif sianel gyfathrebu. Y sianeli a ffefrir hefyd yw cyswllt uniongyrchol â staff a chylchlythyrau ac wedyn cynadleddau/seminarau neu gyfarfodydd CCAUC a'r wefan. Gwerthfawrogir cyswllt uniongyrchol er mwyn galluogi dealltwriaeth, cael eglurhad a chymorth.
- 1.25 Mae adborth am y newyddlen yn awgrymu nad yw bob amser yn cael ei derbyn na 'i chofio. Fe'i gwelir yn gyffredinol fel dogfen hir heb fawr o wybodaeth 'newydd' ynddi. Gallai symud tuag at fformat 'gwegrrawn' gyda dolenni i erthyglau perthnasol wneud y newyddlen yn fwy cyfredol a'i gwneud yn haws cael cipolwg am newyddion perthnasol.
- 1.26 Caiff cylchlythyrau eu gwerthfawrogi fel dull ymgynghori ond mae'n well os cânt eu cyfuno â chyfle ar gyfer sgwrsio a thrafod drwy seminarau/gweithdai ar faterion allweddol. Mae hyn yn cynnig cyfle defnyddiol ar gyfer ymgysylltu â Sefydliadau.
- 1.27 Mae 85% yn teimlo bod CCAUC yn cyfathrebu'n weddol dda neu'n dda iawn gyda'u sefydliad. Mae hyn i'w gymharu â 75% yn arolwg 2008. Mae 7% o ymatebwyr yn dweud bod cyfathrebu'n weddol wael neu'n wael iawn.
- 1.28 Y dulliau cyfathrebu mwyaf defnyddiol yw cylchlythyrau, y wefan a chylchlythyrau cyllid ac roedd 80% neu ragor o ymatebwyr o'r farn eu bod i gyd yn ddefnyddiol. Y sianeli cyfathrebu lleiaf defnyddiol yw'r adroddiad blynyddol,

datganiadau i'r wasg, y cynllun cydraddoldeb, y newyddlen a'r Cynllun Iaith Gymraeg.

- 1.29 Gan adlewyrchu unwaith eto weithgareddau CCAUC, hoffai ymatebwyr weld rhagor o wybodaeth am gyllido addysg uwch (60%), ail-gyflunio, cydweithredu a strwythur y sector (53%) a swyddogaeth reoleiddio ffioedd (38%).
- 1.30 O ran meysydd polisi, ceisir rhagor o wybodaeth am addysg uwch mewn addysg bellach (45%). Mae gofyniad sylweddol ond is am ragor o wybodaeth am dopigau polisi eraill er enghraifft arloesedd ac ymgysylltiad (36%), sgiliau a chyflogadwyedd (36%), ymgysylltiad a chynrychiolaeth myfyrwyr (34%) ac ymchwil (32%).

### Meysydd i'w Gwella

- 1.31 Y prif feysydd i'w gwella dros y tair blynedd nesaf yw:
- Ymgysylltiad a pherthnasoedd gyda sefydliadau – rhagor o bartneriaeth ac ymgynghoriad
  - Cynrychiolaeth gryfach o sector AU Cymru i Lywodraeth Cymru
  - Cyllido a ffioedd – arloesedd, sail resymegol, monitro a chyngor
  - Ymhlith y meysydd eraill y mae amser cylchlythyrau, llinellau terfyn, gweinyddiaeth/biwrocratiaeth, blaenoriaethu meysydd polisi allweddol, tryloywder a rhai gwelliannau effeithlonrwydd.

## Adborth gan Bartneriaid

### Ymwybyddiaeth a Chanfyddiadau am CCAUC

- 1.32 Mae pob ymatebydd partner yn gyfarwydd i ryw raddau â gwaith CCAUC. Roedd mwy nag wyth o bob deg (81%) yn dweud eu bod yn gwybod yn 'dda iawn' neu'n 'weddol dda' am waith CCAUC. Yn yr un modd ag yn achos sefydliadau, mae'r partneriaid yn fwy cyfarwydd â gwaith CCAUC nag ydynt â gwaith cyrff sector addysg eraill y DU.
- 1.33 Mae gan 84% o ymatebwyr argraff ffafriol yn gyffredinol o CCAUC, yn fwy nag ar gyfer sefydliadau eraill. Y sefydliad arall â gradd uchel yw'r Sefydliad Arweinyddiaeth ar gyfer Addysg Uwch sy'n cael gradd ffafriol gan 72%.
- 1.34 Mae 85% yn ystyried bod CCAUC yn hygyrch ac mae 83% yn dweud ei fod yn effeithiol. Mae saith o bob deg yn cytuno ei fod yn ymatebol, yn ymwybodol o waith y sefydliadau y mae'n eu cyllido ac yn cael ei barchu. Y priodoleddau negyddol mwyaf sylweddol oedd biwrocratiaeth (43%), ddim yn dryloyw (18%), yn araf i newid (18%) a ddim yn ymwybodol o waith y sefydliadau y mae'n eu cyllido (13%).
- 1.35 Mae 78% yn dweud bod ansawdd y staff yn gadarnhaol. Mae llawer yn ansicr ynghylch effeithiolrwydd y Cyngor ac mae'n debygol bod hyn yn adlewyrchu cysylltiad cyfyngedig. Mae CCAUC yn deg ac yn dryloyw wrth gymhwyso polisi AU. Ceir barn gymysg ar enw da canfyddedig CCAUC ymysg sefydliadau; er bod y rhan fwyaf yn ei ystyried yn gadarnhaol (58%), mae lleiafrif isel yn anghytuno (8%).

### Canfyddiadau am swyddogaeth CCAUC

- 1.36 Mae canfyddiadau ymatebwyr partner am swyddogaeth CCAUC yn gymysg hefyd. Mae rhai meysydd yn glir iawn, er enghraifft, mae'r mwyafrif yn cytuno bod CCAUC yn gweithio mewn partneriaeth â chyrrff AU eraill ac â'r sefydliadau y mae'n eu cyllido.
- 1.37 Mae cylch gwaith CCAUC yn llai clir ac mae wedi esblygu dros y blynyddoedd diweddar. Mae 81% yn credu bod CCAUC yn asiant i Lywodraeth Cymru ond mae bron dwy ran o dair (63%) yn dweud ei fod yn eiriolwr neu lefarydd dros y sector AU tra bo 23% yn anghytuno â'r pwynt olaf hwn.
- 1.38 Mae dwy ran o dair (68%) yn cytuno bod CCAUC yn cael ei weld yn fwyfwy fel asiantaeth gynllunio. Mae hyn wedi codi o tua hanner yn 2008. Ceir barn gymysg ynghylch p'un a yw hyn yn ddatblygiad cadarnhaol neu negyddol ac mae'r mwyafrif yn cytuno bod y swyddogaeth hon wedi datblygu o ganlyniad i newidiadau mewn cynllunio strategol ar agenda polisi Llywodraeth Cymru. Mae llawer yn credu bod y swyddogaeth hon yn debygol o aros yn un o agweddau allweddol ar swyddogaeth CCAUC yn y dyfodol.
- 1.39 Ceir barn gymysg ynghylch a ystyrir CCAUC yn bennaf fel corff rheoleiddio gyda 30% yn cytuno ei fod a 43% yn anghytuno.

### Cysylltu ac Ymdrin â CCAUC

- 1.40 Mae'r mwyafrif o bartneriaid yn dweud eu bod yn gallu darparu adborth i CCAUC am ei waith (83%). Mae cyfran fechan yn anghytuno (5%). Ystyrir bod CCAUC yn ymatebol i'r adborth y mae'n ei dderbyn (78%). Unwaith eto, mae 5% yn anghytuno.
- 1.41 Mae lefelau bodlonrwydd ymysg partneriaid yn uchel ac roedd 83% yn weddol fodlon neu'n fodlon iawn ar y berthynas rhwng eu sefydliad a CCAUC. Mae'r rhan fwyaf o'r lleill yn niwtral neu heb benderfynu.
- 1.42 Mae 57% yn gweld dim newid yn eu perthynas â CCAUC dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae un o bob tri yn dweud bod eu perthynas wedi gwella. Nid oes yr un o'r ymatebwyr yn awgrymu bod y berthynas wedi gwaethygu. Mae sylwadau'n awgrymu bod y prif feysydd sydd wedi newid yn ymwneud â gwell hygyrchedd a'r gallu i gael trafodaeth agored a gonest rhwng cyrrff yn enwedig ynglŷn â materion polisi sector AU. Bydd cynnal perthnasoedd yn bwysig yn y dyfodol.

### Cyfathrebu ac Ymgysylltiad

- 1.43 Y sianel gysylltu fwyaf poblogaidd yw cyswllt uniongyrchol â staff CCAUC ac roedd bron pawb (95%) yn defnyddio'r dull hwn i ddarganfod am weithgareddau CCAUC. Mae chwech o bob deg (60%) yn dysgu am y datblygiadau diweddaraf drwy'r wefan ac mae hyn wedi codi o 49% yn 2008. Mae llai o sôn am gylchlythyrau ymhlith partneriaid o'u cymharu â sefydliadau ond maent yn dal i gael eu defnyddio gan 43%. Mae ychydig dan un rhan o bump (18%) yn defnyddio newyddlen CCAUC fel y prif ffynhonnell o wybodaeth ar hyn o bryd.
- 1.44 Ar y cyfan mae'r llwybrau cyfathrebu a ffeirir ar gyfer cyfathrebu'n adlewyrchu'r rhai a ddefnyddir ar hyn o bryd a'r rhai mwyaf poblogaidd yw cyswllt uniongyrchol, y wefan, cylchlythyrau a seminarau/cynadleddau. Fodd bynnag,

hoffai bron chwarter gael y newyddion diweddaraf drwy gylchlythyr CCAUC sydd ychydig yn uwch na'r 18% sy'n defnyddio'r llwybr hwn ar hyn o bryd. Mae peth tystiolaeth a ddaw o weithgareddau dilynol nad yw rhai ymatebwyr yn ymwybodol o dderbyn y cylchlythyr.

- 1.45 Mae 80% yn dweud bod CCAUC yn cyfathrebu'n dda gyda'u sefydliad. Dywedodd 5% cyfathrebu yn weddol wael. Roedd y gweddill yn ansicr.
- 1.46 Mae rhagor o wybodaeth ar weithgareddau CCAUC ar gyfer y sector AU o ddiddordeb ar feysydd penodol sy'n adlewyrchu newidiadau a datblygiadau cyfredol yn y sector AU yng Nghymru a'r DU. Y prif flaenoriaethau ar gyfer rhagor o wybodaeth yw cyllido addysg uwch ac ail-gyflunio/ cydweithredu a strwythur y sector.
- 1.47 Yn achos gweithgareddau polisi AU, hoffai hanner gael rhagor o wybodaeth am 'arloesedd ac ymysylltiad' ac 'addysg uwch mewn addysg bellach'. Ymhlith y topigau eraill o ddiddordeb roedd ymchwil a 'sgiliau a chyflogadwyedd'.

### **Meysydd i'w Gwella**

- 1.48 Dylai prif feysydd CCAUC i'w gwella dros y tair blynedd nesaf ganolbwyntio ar:
- Cyfathrebu – yn enwedig ar faterion polisi allweddol, gan gadw ymagwedd agored a thryloyw
  - Datblygiad y Sector Addysg Uwch yn y dyfodol – dylanwad strategol